ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 2 LLEFYDD: *Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch*

Ydych chi a'ch cydweithwyr neu bartneriaid wedi defnyddio'r rhestr wirio fer i gael trosolwg o'ch sefydliad?

Yn awr defnyddiwch y rhestr wirio fanwl hon i archwilio'ch gwaith yn fanylach. Bydd y rhestr wirio hefyd yn eich cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'ch honiadau.

Mae gan yr egwyddor allweddol LLEFYDD 3 elfen ac mae gan bob un o'r rhain ddwy adran

- **Cwestiynau i ganfod i ba raddau yr ydych yn dilyn arferion gorau yn y maes hwn**
- **Cwestiynau i ganfod a oes gennych chi dystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y prosesau hyn**

Awgrymwn eich bod yn canolbwyntio ar yr adran hon ac yn gweithio trwyddi fel tîm yn fanwl, cyn symud ymlaen i gynllunio gweithredu. Ceisiwch fod mor onest â phosibl yn eich atebion.

SYLWER: NI FYDD YR HOLL ENGHREIFFTIAU O DYSTIOLAETH YN BERTHNASOL I BOB AMGUEDDFA, ARCHIF NEU LYFRGELL

Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 2 LLEFYDD: *Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch*

2.1 Ydych chi'n creu amgylcheddau[1] sy'n hybu dysgu?

Camau Gweithredu		***Ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
2.1.1 Ydych chi'n meddu ar gynllun ar gyfer pennu a chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag dysgu[2]?				
2.1.2 Ydych chi'n sicrhau bod pobl yn cael mynediad at wybodaeth, adnoddau a chasgliadau ar adegau ac mewn ffyrdd sy'n addas iddynt hwy?	Ar adegau			
	Mewn ffyrdd			
2.1.3 Ydych chi'n gwneud yr amgylchedd dysgu ffisegol a rhithwir yn groesawgar a hygyrch?	Ffisegol			

[1] Gan gynnwys amgylcheddau dysgu ar y we a rhithwir.
[2] Mae hyn yn cydnabod: oed, grŵp cymdeithasol a diwylliannol, statws economaidd, maint gwybodaeth pobl, dulliau dysgu, unrhyw anawsterau dysgu, iaith, llythrennedd neu rifedd, nam corfforol neu ar y synhwyrau. Gweler nodyn 3 isod.

	Rhithwir			
2.1.4 Ydych chi'n cynllunio amgylcheddau dysgu a chyflwyno gwybodaeth, adnoddau a chasgliadau i adlewyrchu gwahanol ddulliau dysgu ac sy'n galluogi pobl i ddysgu a thrafod?	Dulliau dysgu gwahanol			
	Galluogi dysgu a thrafodaeth			

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	*Ydym*	*Na*	*Meysydd i'w Gwella*

Ydych chi: ➢ wedi ymgynghori â phobl sydd o bosib wedi'u heithrio er mwyn gwneud gwasanaethau'n fwy cynhwysol? ➢ wedi cynnal archwiliadau mynediad deallusol, corfforol a synhwyraidd?[3] ➢ wedi addasu, neu'n bwriadu addasu, adeiladau, cyfleusterau a gwybodaeth?[4] ➢ wedi datblygu cytundebau a briffiau dylunio sy'n cyfeirio at ddylunio cynhwysol? ➢ wedi cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol e.e. DDA, RRA?[5] ➢ wedi sicrhau bod cyflenwyr a chontractwyr[6] yn deall ac yn adlewyrchu dulliau dysgu gwahanol yn eu gwaith? ➢ yn meddu ar bolisïau codi tâl, amseroedd agor a threfniadau mynediad hyblyg? ➢ wedi defnyddio adborth i gyfrannu at ddatblygiad y croeso, y mannau ffisegol a'r cymorth a ddarperir? ➢ wedi sicrhau y gellir dod o hyd i ddeunyddiau dysgu yn hawdd ar-lein ac all-lein? ➢ yn meddu ar weithdrefnau catalogio a digido sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion mynediad a dysgu pobl? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn gallu cael mynediad at wybodaeth ac adnoddau dysgu o bell? ➢ yn teimlo bod yr amgylchedd dysgu a'r cyfleusterau'n addas ar gyfer eu gofynion?[7] ➢ yn cyfrannu at sgyrsiau, rhyngweithio, ystyried, chwarae ac ati o ganlyniad i'r amrywiaeth o fannau, ffactorau syndod, arddangosfeydd heriol a phrofiadau aml-synhwyrol yr ydych chi'n eu creu? ➢ yn disgrifio'u profiad fel un ysgogol, pleserus, ymlaciol, heriol neu sy'n creu syndod? ➢ wedi cael eu hargymell i ymweld gan eraill neu a fyddant yn eich argymell chi i eraill? *Ydych chi'n gwybod a yw eich amgylchedd dysgu rhithwir/gwefan:* ➢ yn hygyrch trwy beiriannau chwilio, dolenni a rhwydweithiau priodol sy'n hyrwyddo'r deunydd ehangaf posibl ohono? ➢ yn syml i bori trwyddo? ➢ yn mapio'r ddarpariaeth ddysgu ar-lein? ➢ yn darparu cyfleoedd ar gyfer deialog ac adborth? ➢ wedi cael ei ddefnyddio gan bobl i gefnogi'u dysgu?			

[3] Gweler rhestr wirio hunanasesu mynediad yr MLA ar gyfer Amrywiaeth Ddiwylliannol, y Portffolio Anabledd a'r deunyddiau arweiniad ar Gynhwysiant Cymdeithasol yn www.mla.gov.uk

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 2 LLEFYDD: *Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch*

2.2 Ydych chi'n datblygu staff [8]i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr?

Camau Gweithredu		***Ydy***	***Wedi dechrau***	***Na***
2.2.1 Ydy argraffiadau cyntaf pobl o'ch sefydliad, gwir a rhithwir, yn gadarnhaol a chroesawgar?	Gwir			
	Rhithwir			
2.2.2 Ydy staff sy'n gysylltiedig â gweithgareddau allgymorth a chyflwyniadau cyhoeddus yn cyflwyno delwedd gadarnhaol a chroesawgar o'r gwasanaeth fel adnodd ar gyfer dysgu?				
2.2.3 Ydy staff yn datblygu eu gallu i ysbrydoli dysgu pobl a chefnogi'u gofynion mynediad?	Ysbrydoli			

[4] Bwriad hyn yw eu gwneud yn addas i anghenion corfforol a synhwyraidd pobl a bodloni safonau mynediad cydnabyddedig.
[5] DDA - Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995; RRA - Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000.
[6] e.e. academyddion, penseiri, dylunwyr, trefnwyr digwyddiadau, llunwyr arddangosfeydd a gwefannau.
[7] e.e. cadeiriau, byrddau, goleuadau, cyferbyniadau lliw, cefnogaeth gyffyrddol, acwsteg, mannau astudio, ardaloedd ymlacio.
[8] Mae'r staff yn cynnwys staff cyflogedig a di-dâl (gwirfoddolwyr, pobl ar leoliadau gwaith).

	Cefnogi mynediad			
2.2.4 Ydy staff yn helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi rôl amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd wrth gefnogi dysgu parhaus ac yn cyfeirio pobl at fannau eraill lle gall hyn ddigwydd?	Helpu i ddeall			
	Cyfeirio pobl at fannau eraill			

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	***Ydy/ ydym***	***Na***	***Meysydd i'w Gwella***
Ydych chi: ➢ wedi gofyn am sylwadau/awgrymiadau ac a oes gennych chi bolisi cwyno y mae defnyddwyr yn ymwybodol ohono? ➢ wedi sicrhau achrediad priodol? [9] ➢ yn meddu ar staff priodol y gellir eu hadnabod yn hawdd, y gellir mynd atynt ac sy'n gymwynasgar? ➢ yn meddu ar lefelau staffio sy'n briodol i'ch polisi datganedig? *Ydy staff wedi derbyn hyfforddiant cynefino a pharhaus er mwyn* ➢ gwella'r croeso a'r ymateb? [10] ➢ eu galluogi i ddeall anghenion dysgwyr a'r dulliau dysgu gwahanol? ➢ datblygu eu rôl wrth gefnogi dysgu? [11] ➢ sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn calonogi ac nid yn brawychu? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael croeso ac nid yn cael eu brawychu? ➢ yn dweud eu bod yn deall perthnasedd amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd a'u rôl a'u potensial o ran cefnogi dysgu? ➢ yn disgrifio cefnogaeth ac anogaeth gadarnhaol gan staff, sy'n dyfnhau eu hymchwilio a'u profiad? ➢ yn cael eu hannog i ymchwilio a defnyddio cyfleoedd dysgu eraill? ➢ yn siarad am sut mae staff wedi cefnogi dysgu, dealltwriaeth a mwynhad y defnyddwyr?			

[9] e.e. VisitBritain – Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS), VisitScotland - Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr, Nod Siarter, IAG.

[10] e.e. gofal cwsmeriaid, ymwybyddiaeth o anabledd, teulu Cynllun Croeso.

[11] Gallai hyn gynnwys: gwybodaeth am bynciau/casgliadau; deall dulliau dysgu; cyfathrebu ag amrediad eang o ddefnyddwyr; cynnal gweithdai/sesiynau grŵp; cyfeirio effeithiol; sgiliau tywys; sgiliau TGCh; cefnogi gofynion mynediad a chynhwysiant dysgwyr; deddfwriaeth a chodau ymarfer; sgiliau holi; cymwysterau dysgu ffurfiol.

ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL
Adran 2 LLEFYDD: *Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch*

2.3 Ydych chi'n hyrwyddo'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell fel canolfan ar gyfer dysgu, ysbrydoli a mwynhau?

Camau Gweithredu		***Ydy /ydym***	***Wedi dechrau***	***Na***
2.3.1 Ydy'ch cynllun marchnata yn cynnwys dysgu fel neges allweddol?				
2.3.2 Ydy'ch deunyddiau hyrwyddo • yn cael eu diweddaru'n rheolaidd? • yn ddeniadol? • yn hyrwyddo pleser a mwynhad mewn dysgu? • yn nodi'n glir beth y gall pobl ddisgwyl dod o hyd iddo? • yn hygyrch?	Eu diweddaru'n rheolaidd			
	Deniadol			
	Hyrwyddo pleser a mwynhad mewn dysgu			
	Nodi'n glir beth y gall pobl ei ddisgwyl			
	Hygyrch			
2.3.2 Ydych chi'n sicrhau bod yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell yn cael ei hyrwyddo'n eang?				

2.3.4	Ydych chi'n hyrwyddo'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell fel man ac adnodd i'w ddefnyddio gan gymunedau?				

Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da	***Ydym***	***Na***	***Meysydd i'w Gwella***
Ydych chi: ➢ yn meddu ar gynllun marchnata[12] sy'n hyrwyddo profiadau a chyfleoedd dysgu? ➢ yn meddu ar strategaethau i gael barn defnyddwyr am yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell, ei wasanaethau a'i gyfleusterau? [13] ➢ wedi ymateb i adborth o werthusiadau? ➢ wedi llunio deunyddiau hyrwyddo deniadol a dealladwy sy'n nodi'n glir yr hyn sydd ar gael neu'r hyn nad yw ar gael? ➢ wedi disgrifio potensial dysgu'r sefydliad yn y deunyddiau hyn? ➢ wedi mabwysiadu safon fynediad gyffredin i fodloni'r rhan fwyaf o anghenon ac wedi addasu'ch deunyddiau i grwpiau neilltuol? ➢ wedi sefydlu deialog reolaidd gyda rhanddeiliaid ac asiantaethau allanol perthnasol[14]? *Ydych chi'n gwybod a yw defnyddwyr:* ➢ yn gweld yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell fel darparwr dysgu? ➢ yn cael gwybod am eich gwasanaethau o amrywiaeth o ffynonellau? ➢ yn gweld eich sefydliad fel man ar gyfer dysgu, mwynhad, ysgogiad, diddanwch ac ar gyfer cymdeithasu? ➢ yn gallu disgrifio ehangder y cyfleusterau a'r gwasanaethau a phennu buddion penodol?			

[12] Gall hwn fod yn rhan o gynllun mwy megis y Cynllun Gwasanaeth, y Cynllun Strategol, y Cynllun Blynyddol neu'r Datganiad Sefyllfa.
[13] Trwy arolygon defnyddwyr, llyfrau sylwadau, holiaduron ac ati.
[14] Megis cynghorau dysgu a sgiliau, cyrff menter lleol, awdurdodau addysg lleol, mudiadau anabledd, grwpiau cymunedol a gridiau dysgu.